

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MD/1119/18

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Simon.Thomas@cynulliad.cymru

29 Mawrth 2018

Annwyl Simon,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi diweddariad i chi am y camau diweddaraf yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru i gynnig treth newydd i Lywodraeth y DU er mwyn profi mecanwaith Deddf Cymru 2014.

Ym mis Chwefror, yn ystod datganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar syniadau am drethi newydd, dywedais y buaswn yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU i gadarnhau y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnig treth ar dir gwag, a thrwy hynny yn profi'r mecanwaith yn Neddf Cymru, sy'n galluogi cynnig - ac o bosibl drosglwyddo - pwerau trethu yn y meysydd sydd wedi'u datganioli.

Yn gynharach heddiw, fe ysgrifennais at Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Mel Stride AC, i ddechrau'r broses hon yn ffurfiol. Rwyf wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau i'r pwyllgor ac i ACau ac rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig heddiw, wedi'i hamgáu.

Mae hon yn broses newydd a chyffrous, a fydd yn cymryd peth amser i'w chwblhau. Rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu dull agored a thryloyw o ymdrin â pholisi trethi fel rhan o'r broses hon. Er mwyn helpu i egluro beth fydd hyn yn ei olygu, rwyf wedi cyhoeddi crynodeb o'r camau yma:

<http://gov.wales/docs/caecd/publications/180213-developing-infographic-cy.pdf>

Byddaf yn parhau i roi diweddariadau i'r Pwyllgor Cyllid wrth i'r gwaith hwn ddatblygu.

Cofion gorau,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance